# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1436(SJL) a gyhoeddwyd gan Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ar 15 Rhagfyr 2010

**At Helen Mary Jones:**

Yn dilyn eich cwestiwn ar 1 Rhagfyr cytunais i ysgrifennu llythyr manwl atoch o ran y gwaith sydd wedi'i wneud i sicrhau arian BBC Plant mewn Angen ar gyfer plant mewn lloches.

Mae swyddogion wedi bod yn cyfarfod â BBC Plant mewn Angen ers y cyfarfod Cymunedau a Diwylliant yn 2008. Mae pum cyfarfod wedi'u cynnal ers hynny a chytunwyd ar yr hyn sy'n cyfrif fel gwasanaeth craidd i blant mewn lloches. Cytunwyd hefyd na fyddai cyllid craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu ariannu'r holl wasanaethau sydd eu hangen ar blant mewn lloches, byddai angen cyllid o ffynonellau eraill er mwyn gwneud iawn am unrhyw ddiffyg neu i ariannu rhaglenni arloesol.

Mae cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru o gyllidebau refeniw Cefnogi Pobl a Cham-drin Domestig yn gyfystyr â thros £2 filiwn. Mae'n bleser gennyf ddweud nad yw'r gyllideb hon wedi lleihau a bydd yn parhau i ariannu gwasanaethau i blant.

Ar hyn o bryd, mae BBC Plant mewn Angen yn ariannu 17 o wasanaethau sy'n ymwneud â Cham-drin Domestig gyda 13 ohonynt yn darparu cyllid craidd ar gyfer gweithiwr penodedig i blant a phobl ifanc. Mae BBC Plant mewn Angen wedi cytuno i barhau i roi arian hyd at fis Gorffennaf 2011 a bydd yn parhau i asesu ceisiadau pan gânt eu derbyn.

Mae hon yn sefyllfa gadarnhaol iawn yn dilyn y bygythiad na fyddai arian BBC Plant mewn Angen yn cael ei roi yn 2008. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cynnydd parhaus sy'n cael ei wneud i sicrhau y bydd y cyllid hwn ar gael yn y dyfodol.